

Cyfeiriad: IR731

Dyddiad cyhoeddi: 12 Chwefror 2020

Cyfrifon Cynghorau Cymuned

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth, dyddiedig 13 Ionawr 2020, pan wnaethoch ofyn am wybodaeth am Gyfrifon Cynghorau Cymuned.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhychu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol.

1. Rhowch yr holl wybodaeth a gynhyrchwyd i mi wrth orfodi Adran 52 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) yn y 4 Cyngor nad oeddent wedi cyflwyno cyfrifon am 2 flynedd. [Cyngor Cymuned Bodorgan, Cyngor Cymuned Cynwyd, Cyngor Cymuned Llangristiolus a Chyngor Cymuned Maenclochog].

Nid oes gennym wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn, gan nad ydym wedi cymryd camau gorfodi.

2. A oedd unrhyw un o'r 4 Clerc/RFOs wedi codi dogfennau Adran 22?

Gwnaethom gyhoeddi dogfennau ystyried i Gyngor Cymuned Bodorgan, Cyngor Cymuned Cynwyd, Cyngor Cymuned Llangristiolus a Chyngor Cymuned Maenclochog er mwyn cadarnhau cywirdeb ffeithiol fel rhan o'n proses glirio. Yn dilyn hynny, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiadau budd cyhoeddus o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac mae'r adroddiadau ar gael ar ein gwefan:

<https://www.audit.wales/cy/publication/cyngor-cymuned-bodorgan-adroddiad-er-budd-y-cyhoedd-methiannau-o-ran-trefniadau>

<https://www.audit.wales/cy/publication/cyngor-cymuned-cynwyd-methiannau-o-ran-rheolaeth-ariannol-threfniadau-llywodraethu>

<https://www.audit.wales/cy/publication/cyngor-cymuned-llangristiolus-cherrigceinwen-adroddiad-er-budd-y-cyhoedd-diffygion-o>

<https://www.audit.wales/cy/publication/cyngor-cymuned-maenclochog-methiannau-o-ran-rheolaeth-ariannol-threfniadau-llywodraethu>

3. Hefyd, o'r 21 Cyngor nad oeddent wedi cyflwyno cyfrifon yn 2016-17, faint ohonynt a lithrodd i fod yn 2 flynedd mewn ôl-ddyledion?

O'r cynghorau a restrir yn Atodiad 1 i'n hadroddiad [Rheolaeth Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Lleol 2016-17](#) fel Cynghorau â chyfrifon hwyr ar 30 Tachwedd 2017 (a ddangosir fel rhai 'nas derbyniwyd') mae pob cyngor bellach wedi cyflwyno cyfrifon ar gyfer 2016-17. Nid yw 6 chyngor wedi cyflwyno cyfrifon ar gyfer 2017-18 a 2018-19 eto.

4. Faint o refeniw ychwanegol a ychwanegodd y Cynghorau hyn, nad ydynt yn cydymffurfio, at goffrau SAC?

Nid oes gennym wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn, gan nad yw anfonebau wedi'u paratoi eto.

5. Pryd yr hysbyswyd y Cynghorau nad oeddent yn cydymffurfio am y taliadau ychwanegol a ysgwyddwyd?

Nid oes gennym wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn. Darperir gwybodaeth am daliadau ar ddiwedd yr archwiliad, ac ni roddwyd anfonebau i'r Cynghorau hyn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am fy ffordd o ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth